CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced

325/51

**ASTUDIAETHAU BUSNES**

**BS5a**

A.M. DYDD IAU, 15 Mehefin 2006

(1½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn bydd angen:

- cyfrifiannell;
- llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch yr **un** cwestiwn gorfodol yn y llyfr ateb a ddarperir ar wahân.

Fe'ch cynghorir i dreulio tua 30 munud yn darllen y wybodaeth a ddarperir a gwneud nodiadau bras cyn ateb y cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

Asesir ymgeiswyr yn ôl ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn yr atebion h.y. strwythuro a chyflwyno syniadau; eglurder mynegiant; sillafu, atalnodi a gramadeg. Rhoddir hyd at dri marc am y cyfathrebu ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

**1.** Astudiwch y wybodaeth isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**MENTER NEWYDD DONALD AC ANGELA**

Fe wnaeth Donald Dickens gyfarfod ei ddarpar wraig Angela pan oedd yntau yn y brifysgol a hithau yn fyfyrwraig yn dilyn gradd mewn Arlwyo a Lletygarwch. Ar ôl ymadael â'r Brifysgol cafodd Donald swydd gyda Dur Prydain a daeth Angela yn rheolwraig arlwyo mewn coleg lleol, swydd y gwnaeth hi roi'r gorau iddi pan ddechreuasant deulu. Erbyn hyn mae eu tri phlentyn, Emma, Charles a Samantha wedi tyfu i fyny.

Yn ddiweddar clywodd Donald ei fod yn mynd i gael cynnig colli gwaith yn wirfoddol *(voluntary redundancy)* o'i swydd fel rheolwr yn y gwaith dur. Breuddwyd Angela erioed fu rhedeg tafarn ond tan nawr mae hi wedi cael ei throi oddi ar y syniad am ei bod hi'n gofidio y bydd hi'n gaeth i'r dafarn ac na fydd hi'n gallu mynd ar wyliau. Hefyd nid yw'n rhy hoff o fwg sigaréts. Fodd bynnag, maent wedi penderfynu erbyn hyn mai dyma'r peth yr hoffent ei wneud a'r broblem nawr yw penderfynu pa dafarn y maent ei heisiau.

Mae Donald ac Angela yn byw mewn tŷ sengl, sydd wedi cael ei brisio yn £250 000. Yn ffodus, maent wedi talu'r cyfan o'u morgais. Fel rhan o'i becyn tâl colli gwaith byddai Donald yn cael taliad lwmp-swm o £50 000. Mae Donald ac Angela yn 50 oed nawr ac maent yn gobeithio gweithio am 10 mlynedd arall cyn ymddeol.

Mae Donald yn hoff iawn o chwaraeon ac mae'n cefnogi'r tîm pêl-droed lleol. Ers sawl blwyddyn mae wedi bod yn aelod o *CAMRA*, yr ymgyrch dros gwrw go iawn. Mae'n selog dros gerddoriaeth felanganu *(blues)* a *jazz* a hoffai redeg tafarn mewn tref lle gallent gael cerddoriaeth fyw ar nosweithiau Gwener a Sadwrn. Mae Charles, sy'n 21 ac yn gitarydd brwd, yn credu bod syniad ei dad yn wych. Byddai'n well gan Angela y syniad o redeg tafarn wledig lle gall hi baratoi a gwerthu bwyd, sy'n fwy proffidiol na diodydd. Mae Samantha yn credu bod syniad ei mam yn well o lawer na syniad ei thad gan y gallai hi helpu yn y gegin yn y nosweithiau ac ar benwythnosau.

Mae Emma, sydd newydd orffen ei gradd mewn Astudiaethau Busnes, yn credu y dylent edrych am ddatrysiad sy'n gyfaddawd. Mae hi wedi darganfod hefyd fod cadwyn fawr o dafarnau, sydd â phrisiau cystadleuol iawn, wedi prynu'r hen sinema yn y dref yn ddiweddar gyda'r bwriad o'i throi yn un o'u hallfeydd. Mae wedi dysgu hefyd fod 500 o dafarnau y flwyddyn, ar gyfartaledd, yn cau yn y DU a bod prisiau cwrw yn codi'n gyflymach na chwyddiant.


Mae Donald wedi darganfod bod tair ffordd wahanol o redeg tafarn: prydles *(leasehold)*, rhydd-ddaliad *(freehold)* neu denantiaeth.

- Prydles yw lle byddent yn cymryd prydles ar eiddo. Mae hynny'n golygu y byddant yn rhwym i dalu rhent hyd nes y daw'r brydles i ben oni allant ei gwerthu i rywun arall. Mae tafarnau ar gael gan *Brewers and Property Landlords* naill ai mewn fformat clwm *(tied)* neu'n rhydd o gysylltiad clwm. Mae'r rhan fwyaf o brydlesau yn gofyn bod deiliad y brydles yn gyfrifol am yr holl atgyweirio a'r yswiriant, felly mae cyflwr yr adeilad yn bwysig. Amcangyfrifir gwerth y brydles yn ôl swm yr elw busnes a nifer y blynyddoedd cyn y daw'r brydles i ben. Gyda phrydles, byddai ganddynt wybodaeth gywir am y busnes cyn cymryd drosodd.

- Byddai rhydd-ddaliad yn golygu mai Donald ac Angela eu hunain fyddai'n berchen y dafarn. Byddai ganddynt reolaeth lwyr ar y busnes a'r eiddo a byddent yn gyfrifol am yr holl waith atgyweirio ac adnewyddu. Ar y llaw arall, byddent yn rhydd o unrhyw gysylltiad clwm ag un bragdy. Y prif beryglon yw cost uchel allfa dda a chost barhaol yr atgyweirio.

- Y trydydd opsiwn yw cymryd cytundeb tenantiaeth â bragdy. Y bragdy sy'n gyfrifol am atgyweirio'r adeilad ac nid oes unrhyw daliadau ewyllys da ynglŷn â'r busnes.

Ar ôl llawer o ymchwil, cawsant hyd i dair tafarn wahanol yn neu'n agos at y dref lle maen nhw'n byw: yr *Windsor Castle*, yr *Hartford Arms* a'r *Railway Inn*. Nawr roeddent yn wynebu'r penderfyniad ynglŷn â pha un fyddai'r opsiwn gorau iddynt. Mae Emma wedi gwneud rhywfaint o ymchwil am y tafarnau unigol a rhoddir ei chasgliadau yn yr adrannau perthnasol canlynol.




**YR *WINDSOR CASTLE***

Mae'r *Windsor Castle* wedi'i lleoli ar ymyl y dref heb fod ymhell o'r maes pêl-droed lleol. Mae ganddi ddau far o faint rhesymol a gardd gwrw fach. Mae ganddi deledu sgrin fawr, bwrdd pŵl a rhai peiriannau gemau. Yn un o'r barrau mae llwyfan bach ac mae gan y dafarn drwydded adloniant. Mae'r decor yn cynnwys pethau cofiadwy *(memorabilia)* yn ymwneud â'r tîm pêl-droed lleol.

I fyny'r grisiau mae fflat fawr â phedair ystafell wely. Disgrifir y dafarn fel bod mewn cyflwr addurnol da.

Mae gan y dafarn ddwy flynedd ar bymtheg yn weddill ar brydles ugain mlynedd. Mae'r bragdy yn gofyn am £40 000 am weddill y brydles a'r ewyllys da, gan gynnwys yr holl osodion *(fixtures)* a ffitiadau. Nid yw'r pris yn cynnwys unrhyw stoc. Yn ogystal mae rhent blynyddol o £30 000 y flwyddyn plws TAW.

**<u>Tabl 1</u> – Mae'r cyfrifon am y ddwy flynedd ddiwethaf fel a ganlyn:**

| | Hyd at 16/9/05 | Hyd at 16/9/04 |
|---|---:|---:|
| Gwerthiant | £160 000 | £152 000 |
| Elw Crynswth | £86 000 | £82 000 |
| Costau/Treuliau gan gynnwys rhent a chyflogau | £77 000 | £74 500 |
| Elw Net | £9 000 | £7 500 |

Roedd y gwerthiant i gyd yn 'werthiant gwlyb', h.y. diodydd. Nid oedd unrhyw werthiant bwyd o gwbl.

Datgelodd ymchwil Emma y wybodaeth ganlynol. Mae'r *Windsor Castle* wedi'i lleoli mewn ardal a fu'n ardal ddosbarth gwaith draddodiadol ond sydd wedi cael rhywfaint o 'foneddigeiddio' *(gentrification)* yn y blynyddoedd diwethaf, wrth i deuluoedd ifanc proffesiynol symud i mewn. Mae'r dafarn ar ddiwedd rhes o siopau ac mae tai teras o'i hamgylch.

Aeth Emma i'r dafarn ddwywaith, unwaith amser cinio ar ddydd Mawrth pan nad oedd mwy na dyrnaid o gwsmeriaid yno ac unwaith ar brynhawn Sadwrn pan oedd y lle'n orlawn – yn bennaf gan ddynion a oedd yn gwylio Arsenal yn chwarae Manchester United ar y 'sgrin fawr'. Sylwodd hi fod yr awyrgylch yn fyglyd *(smoky)* iawn.

Ar yr ail ymweliad gofynnodd Emma i ugain o'r cwsmeriaid ateb ychydig o gwestiynau. Rhoddir isod eu hatebion i dri o'r cwestiynau.

**<u>Tabl 2</u> – Pa mor aml rydych chi'n dod i'r *Windsor Castle*?**

| | |
|---|---|
| Unwaith neu ddwywaith yr wythnos | 9 |
| Teirgwaith neu bedair gwaith yr wythnos | 7 |
| Pum gwaith neu fwy yr wythnos | 4 |

**<u>Tabl 3</u> – Faint rydych chi'n ei wario yma mewn wythnos gyfartalog?**

| | |
|---|---|
| Llai na £15 | 8 |
| £15 - £29 | 6 |
| £30 - £50 | 4 |
| Mwy na £50 | 2 |

**<u>Tabl 4</u> – Fyddech chi'n dweud mai hon yw eich tafarn leol?**

| | |
|---|---|
| Byddwn | 16 |
| Na fyddwn | 4 |

**YR *HARTFORD ARMS***

Mae'r *Hartford Arms* yn dafarn wledig mewn pentref bach tua phymtheg milltir i ffwrdd o'r man lle mae Donald ac Angela yn byw ar hyn o bryd. Mae yna ardd fawr sydd nesaf at y gamlas *(canal)*, sy'n boblogaidd iawn gyda thwristiaid yn yr haf. Mae gan y dafarn ddau far, tŷ bwyta, lle i fyw a lle i bum deg o bobl fwyta.

Mae'r dafarn yn cael ei chynnig ar werth yn rhydd-ddaliadol am £450 000 gan gynnwys gosodion a ffitiadau. Byddai angen iddynt hefyd ddod o hyd i £15 000 ar gyfer stoc, gwydrach *(glassware)*, llestri, cytleri ayb. Mae Donald yn sylweddoli y bydd angen iddynt werthu eu tŷ a chael morgais os byddant yn dewis yr opsiwn hwn. Maent wedi darganfod y bydd yn rhaid iddynt, ar y cyfraddau llog presennol, ad-dalu £75 y mis am bob £10 000 y byddant yn eu benthyca dros gyfnod o ugain mlynedd.

**<u>Tabl 5</u> – Mae'r cyfrifon am y ddwy flynedd diwethaf fel a ganlyn:**

| | Hyd at 31/12/05 | Hyd at 31/12/04 |
|---|---|---|
| Gwerthiant | £200 000 | £220 000 |
| Elw Crynswth | £120 000 | £130 000 |
| Costau/Treuliau (gan gynnwys cyflogau) | £92 000 | £96 000 |
| Elw Net (heb gynnwys ad-daliadau morgais) | £28 000 | £34 000 |

Gwnaeth Emma arolwg o ugain ymwelydd ym mis Gorffennaf. Cafodd yr atebion canlynol:

**<u>Tabl 6</u> – Ydych chi'n lleol neu ar wyliau?**

| | |
|---|---|
| Lleol | 8 |
| Ar wyliau | 12 |

**<u>Tabl 7</u> – A ddaethoch chi yma i fwyta neu i yfed yn bennaf?**

| | |
|---|---|
| Bwyta | 16 |
| Yfed | 4 |

**Tabl 8 – Pa mor aml rydych chi'n dod yma?**

| | |
|---|---|
| Y tro cyntaf | 10 |
| Bob hyn a hyn | 4 |
| Yn rheolaidd | 6 |

**Y *RAILWAY INN***

Mae'r *Railway Inn* yn dafarn yng nghanol y dref ac, fel yr awgryma'r enw, nid yw'n bell o orsaf y rheilffordd. Mae ganddi ddau far bach ac un bar mawr ond nid oes gardd. Mae'n cael ei chynnig ar gytundeb tenantiaeth o bum mlynedd gan fragdy sydd â chadwyn ranbarthol. Mae'r bragdy'n cynnig cefnogaeth a hyfforddiant estynedig *(enhanced)* yn ystod blwyddyn gyntaf y denantiaeth. Mae cegin yno ac ar hyn o bryd mae'r gwerthiant bwyd ychydig yn fwy na £3 000 y flwyddyn.

Mae fflat fawr â thair ystafell wely uwchlaw'r dafarn ac, yn ôl y bragdy, 'dim ond cot o baent fydd ei hangen' i'w gwneud hi'n gysurus.

Mae'r bragdy'n gofyn am £24 000 am osodion, ffitiadau, stoc, gwydrach, ayb. Mae'r rhent yn £693 yr wythnos yn sefydlog am bum mlynedd ond mae'n cynyddu yn unol ag indecs prisiau adwerthu.

**Tabl 9 – Mae'r cyfrifon am y ddwy flynedd diwethaf fel a ganlyn:**

| | Hyd at 31/12/05 | Hyd at 31/12/04 |
|---|---|---|
| Gwerthiant | £261 000 | £272 000 |
| Elw Crynswth | £130 000 | £136 000 |
| Costau/Treuliau (gan gynnwys rhent a chyflogau) | £116 000 | £119 000 |
| Elw Net | £14 000 | £17 000 |

Aeth Emma i'r dafarn ar ddechrau mis Hydref a gofynnodd yr un cwestiynau ag a ofynnodd yn yr *Windsor Castle*.

**Tabl 10 – Pa mor aml rydych chi'n dod i'r *Railway Inn*?**

| | |
|---|---|
| Unwaith neu ddwywaith yr wythnos | 12 |
| Teirgwaith neu bedair gwaith yr wythnos | 5 |
| Pum gwaith neu fwy yr wythnos | 3 |

**Tabl 11 – Faint rydych chi'n ei wario yma mewn wythnos gyfartalog?**

| | |
|---|---|
| Llai na £15 | 14 |
| £15 - £29 | 3 |
| £30 - £50 | 2 |
| Mwy na £50 | 1 |

**Tabl 12 – Fyddech chi'n dweud mai hon yw eich tafarn leol?**

| | |
|---|---|
| Byddwn | 6 |
| Na fyddwn | 14 |

Sylweddololodd Emma fod y cwsmeriaid yn eithaf cymysg a'u bod yn cynnwys nifer o fyfyrwyr o'r brifysgol leol, ac roedd llawer o'r rheiny yn ysmygu.

**Ysgrifennwch adroddiad (gan ddefnyddio fformat adroddiad) at Donald ac Angela Dickens, yn eu cynghori ynghylch pa un o'r tair tafarn y byddech yn argymell eu bod yn ei chaffael *(acquire)*. [50]**

**D.S. Rhaid i chi gyfiawnhau eich argymhelliad.**